Teitl y Swydd: Prentis ar y Rhaglen Datblygu Hyfforddwyr

Lleoliad: Plas Menai - Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru

Mae Plas Menai wedi bod yn rhan o'r gymuned antur awyr agored ers 40 mlynedd ac mae ganddo enw rhagorol am ddarparu ystod eang o weithgareddau a chyrsiau, ar y dŵr ac oddi arno. Rydyn ni wedi hyfforddi Hyfforddwyr Gweithgarwch yn gyson ac mae llawer ohonyn nhw wedi mynd ymlaen i weithio yn y diwydiant, yn y DU ac ymhellach i ffwrdd, yn ogystal â gweithio i rai o'r Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol mwyaf yn y DU. Rydyn ni'n ymfalchïo yn y ffordd rydyn ni'n darparu hyfforddiant ac yn ansawdd ein hyfforddiant, felly, ar hyn o bryd rydyn ni'n chwilio am Brentis Hyfforddwr Gweithgarwch Lefel 2 neu Lefel 3 i ymuno â'n tîm ni yn 2027.

Bydd y swydd yn dechrau ar 15fed Mawrth 2027.

Y Cyfle

Mae hon yn Brentisiaeth Lefel 2/3 am 12 mis mewn Arweinyddiaeth Gweithgareddau, gyda chyfle i ymestyn am ail dymor (hyd at 18 mis). Mae hyn yn dibynnu ar addasrwydd ac yn ôl disgresiwn llwyr Legacy Leisure, ac mae hefyd yn amodol ar berfformiad ac anghenion y busnes. Byddwch yn cael hyfforddiant i gynorthwyo gyda / cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau awyr agored ac antur. Byddwch hefyd yn dysgu am redeg canolfan gweithgareddau awyr agored brysur yn gyffredinol. Mae ein gweithgareddau ni ar y dŵr yn cynnwys hwylio, gwyntsyrffio, wingio, chwaraeon padlo a gyrru cychod pŵer. Mae ein gweithgareddau ni ar y tir yn cynnwys wal ddringo bwrpasol ar y safle, cwrs rhaffau sydd newydd ei ddatblygu, crwydro ogofâu, beicio mynydd, sgiliau tân gwersylla a chrefft y gwyllt, yn ogystal ag amrywiaeth o gemau tîm. Mae'r gweithgareddau oddi ar y safle'n cynnwys cerdded, cerdded ceunentydd, beicio mynydd ac arfordiro. Bydd y prentisiaid hefyd yn cymryd rhan yn y rhaglen nofio helaeth sydd wedi'i hachredu gan Nofio Cymru ac yn gweithio yn y gampfa fel rhan o ochr hamdden y busnes. Yn y rôl hon, byddwch yn cynorthwyo gyda goruchwylio'r gampfa a pharatoi dosbarthiadau ffitrwydd, gan sicrhau bod yr holl amgylcheddau'n bodloni ein safonau proffesiynol uchel. Mae hyn yn cynnig llwybr unigryw i chi ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant mewn ffitrwydd a hamdden, gan ychwanegu dimensiwn gwerthfawr at eich portffolio fel hyfforddwr awyr agored.

Mae eich datblygiad proffesiynol wrth galon y rhaglen hon, gyda hyfforddiant cynhwysfawr yn cael ei ddarparu ar gyfer pob agwedd ar ein gweithrediadau. Byddwch yn cael golwg gynhwysfawr, 360 gradd ar y diwydiant awyr agored a hamdden drwy gylchdroi mewn gwahanol feysydd gweithredol, gan gynnwys y canlynol:

Dyma brif amcanion yr Hyfforddwr Gweithgareddau Tymhorol:

- Bod yn gyfrifol am gynnal cyrsiau gweithgareddau dŵr a thir, boed ar y safle neu oddi ar y safle, yn unol â'r Llawlyfr Diogelwch a Gweithredol.

- Sicrhau bod yr holl offer yn cael ei baratoi cyn y gweithgareddau, a'i fod yn cael ei lanhau, ei storio a'i ddiogelu'n briodol ar ôl y gweithgareddau.

- Cynorthwyo'r Swyddogion Offer gyda mân atgyweiriadau a gwiriadau ar yr offer pan fo angen.

- Sicrhau bod yr offer a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) sydd wedi'u neilltuo'n cael eu defnyddio a'u rheoli'n briodol.

- Delio â chwsmeriaid a chleientiaid mewn ffordd broffesiynol a chwrtais bob amser.

- Cefnogi'r Rheolwr Gweithgareddau ar Ddyletswydd a Chyfarwyddwr y Cwrs ar gyfer grwpiau.

- Gweithredu fel Cyfarwyddwr Cwrs ar gyfer grwpiau llai.

- Ymgymryd â dyletswyddau Swyddog Dyletswydd Ar Alwad ar sail rota, a darparu cefnogaeth i'r ganolfan tu allan i oriau.

- Gweithio shifftiau yn ôl yr angen, gan gynnwys "oriau anghymdeithasol," er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol drwy gydol oriau agor y busnes.

- Ymrwymiad i batrwm gwaith hyblyg, gan sicrhau eich bod ar gael i weithio shifftiau hwyr a phenwythnosau yn unol â gofynion y busnes.

Proffil yr Ymgeisydd

Rhagofynion Craidd (Yr Hanfodion)

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon, rhaid i chi fodloni'r meini prawf canlynol erbyn 15fed Mawrth 2027:

- Gofyniad Oedran: Rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn.
- Sylfaen Hyfforddi: Rhaid i chi fod ag o leiaf un cymhwyster hyfforddi gan Gorff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) (e.e. RYA, Paddlesport, CWI, neu gymhwyster fel Athro Nofio / NPLQ).
- Ymrwymiad Dwyieithog: Fel rhan o'n hymrwymiad i'n hamcanion strategol a safonau statudol Llywodraeth Cymru, rydyn ni wedi ymrwymo i ehangu ein darpariaeth o wasanaethau dwyieithog. Mae datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn gwasanaethu ein cymunedau dwyieithog yn ganolog i'n gweledigaeth hirdymor. I gefnogi'r flaenoriaeth

strategol hon, ystyrir bod rhuglder yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn fantais fawr ar gyfer y rôl hon.

- Hyblygrwydd Gweithredol: Gallu a pharodrwydd clir i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw cyfleusterau, atgyweirio offer, gofalu am y tiroedd, a dyletswyddau glanhau cyffredinol, i gefnogi safonau o'r radd flaenaf y Ganolfan.
- Diogelu: Bod â chliriad Uwch dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), i gael ei gynnal fel amod i barhau â'r gyflogaeth.
- Integriti Proffesiynol: Ymrwymiad i beidio ag yfed alcohol yn ystod unrhyw gyfnod ar alwad neu ar ddyletswydd dros nos.

Proffil Technegol ac Academaidd Uwch (Dymunol)

Nid yw'r priodoleddau canlynol yn hanfodol, ond byddant yn cryfhau eich cais yn sylweddol:

- Cefndir Academaidd: 5 TGAU Gradd C / 4 neu uwch (neu gyfatebol).
- Symudedd: Trwydded yrru lawn a dilys yn y DU.
- Profiad yn y Diwydiant: Profiad blaenorol o weithio neu wirfoddoli mewn amgylcheddau awyr agored neu hamdden.
- Sgiliau Ieithyddol: Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ystyried yn hynod ffafriol.

Meddylfryd Plas Menai

Rydyn ni'n chwilio am unigolion sy'n ymgorffori ysbryd proffesiynol ac egnïol Canolfan Awyr Agored Genedlaethol. Dylech fod â'r rhinweddau canlynol:

- Presenoldeb: Rydych chi'n allblyg, yn hawdd siarad â chi, ac yn edrych yn dda yn gyson o ran eich ymddangosiad, gan wasanaethu fel llysgennad o safon byd i'r Ganolfan.
- Meithrin Perthnasoedd: Mae gennych chi'r gallu naturiol i feithrin perthnasoedd cadarn a pharchus gyda phlant, oedolion, cydweithwyr ac athrawon sy'n ymweld fel ei gilydd.
- Parch at Gydweithwyr: Rydych chi'n ymddwyn gyda'r integriti gofynnol i gael eich derbyn a'ch parchu ar unwaith gan gwsmeriaid a'r tîm proffesiynol ehangach.
- Dysgu Parhaus: Mae gennych chi ddyhead cadarnhaol i ddatblygu sgiliau lefel elitaidd ac rydych chi'n frwdfrydig am ennill cymwysterau newydd ar draws disgyblaethau anturus a hamdden.
- Agwedd Iach at Dwf: Rydych chi'n gofyn am, ac yn derbyn adborth, yn gadarnhaol, gan weld pob rhyngweithio fel cyfle i ddatblygu eich hun.
- Ymroddiad Academaidd: Rydych chi wedi ymrwymo i gwblhau DPP

- Synergedd Tîm: Rydych chi'n aelod ymroddedig o dîm ac yn deall bod ein llwyddiant ni'n dibynnu ar ragoriaeth gydweithredol.
- Annibyniaeth: Rydych chi'r un mor gyfforddus yn gweithio'n annibynnol, gyda blaengaredd i ddatrys problemau cyn iddyn nhw waethygu.
- Parod i Addasu: Rydych chi'n cofleidio natur "360 gradd" y rôl, gan ddangos angerdd cyfartal dros arweinyddiaeth hyfforddi a'r stiwardiaeth hanfodol dros y cyfleuster sy'n ofynnol i gadw'r Ganolfan yn gweithredu.
- Hyblygrwydd Gwasanaeth: Rydych chi'n deall bod Canolfan Genedlaethol yn gweithredu ar rythm unigryw ac yn fodlon gweithio oriau afreolaidd ac anghymdeithasol i ddiwallu anghenion ein gwesteion.
- Ysbryd Dwyieithog: Rydych chi'n frwdfrydig dros gefnogi ein hymrwymiad i safonau Llywodraeth Cymru drwy gymryd rhan weithredol mewn darparu gwasanaethau a hyfforddiant dwyieithog.

Y Cynnig - Beth gall Legacy Leisure ei gynnig i chi?

- Cyflog cystadleuol - uwchlaw'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol safonol ar gyfer Prentisiaid.
- Gwyliau blynyddol cynyddrannol
- Aelodaeth am ddim o'r gampfa i chi a pherson wedi'i enwi
- Buddion iechyd i gyflogeion
- Tâl ychwanegol fesul awr os oes angen eich galw allan.
- Porthol gostyngiad i gyflogeion - gostyngiadau ar archebion teithio, talebau'r stryd fawr, cardiau rhodd, tocynnau sinema, dyddiau allan, gweithgareddau hamdden a'ch gwariant o ddydd i ddydd
- Cynllun Beicio i'r Gwaith
- Cynllun Pensiwn
- Tâl salwch cwmni
- Cynnydd gyrfa
- Hyfforddiant a datblygiad
- Pecyn llety a bwyd llawn ar y safle

Mae Legacy Leisure yn fusnes sydd wedi hen sefydlu ac sy'n parhau i dyfu. Gall ymgeiswyr llwyddiannus edrych ymlaen at ymuno â chwmni sy'n gallu cynnig rhagolygon gyrfa ac sy'n credu mewn buddsoddi yn ei bobl.

Sut i Ymgeisio

Mae eich siwrnai chi tuag at ddod yn arweinydd yn y diwydiant awyr agored yn dechrau gydag un cam dewr. Ym Mhlas Menai, nid dim ond llenwi swyddi ydyn ni; rydyn ni'n buddsoddi ym mhotensial pobl. Rydyn ni'n credu bod rhagoriaeth yn deillio o safbwyntiau amrywiol, ac rydyn ni wedi ymrwymo'n gadarn i gydraddoldeb a chynhwysiant, gan sicrhau bod ein canolfan ni'n lleoliad lle mae pob unigolyn – dim ots beth yw ei gefndir - yn teimlo ei fod yn perthyn ac wir yn gallu ffynnu.

Rydyn ni yma i'ch helpu chi i chwalu eich cyfyngiadau a gwneud y mwyaf o'ch potensial, yn bersonol ac yn broffesiynol.

Os ydych chi'n barod i gyflwyno eich cais ar gyfer y dyddiad dechrau ar 1af Ebrill 2026, neu os ydych chi eisiau gweld ydi'r llwybr yma'n cyd-fynd â'ch dyheadau chi, rydyn ni'n croesawu sgwrs anffurfiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Hoffem glywed eich stori a thrafod sut gall y rhaglen yma fod yn fan cychwyn i'ch gyrfa. Am sgwrs gyfeillgar ac anffurfiol am y rôl, cysylltwch yn uniongyrchol â'n Rheolwr Rhaglen Gweithgarwch, Alison Manning, neu gwnewch gais yn uniongyrchol drwy anfon llythyr cais a CV at: alison.manning@legacyleisure.org.uk

Dyddiad Cau	12:00 – hanner dydd ar ddydd Iau, 19eg Tachwedd 2027
Dyddiadau'r Cyfweliadau	Dydd Iau 27ain / Dydd Iau 26ain Tachwedd 2027

Am Legacy Leisure

Sefydlwyd Legacy Leisure i gefnogi gwaddol cenedlaethol yn dilyn y Gemau Olympaidd. Ei nod yw addysgu, ysbrydoli a chefnogi gweithgarwch corfforol, er mwyn gwella bywydau ein defnyddwyr a galluogi newidiadau cadarnhaol a hirdymor i'w ffordd o fyw. Mae Legacy Leisure yn angerddol dros wella iechyd a lles ein defnyddwyr, ac yn anelu at gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol a diwylliannol a fydd yn ymgysylltu â chymunedau ac yn eu bywiogi, boed hynny drwy chwaraeon, y celfyddydau neu weithgareddau eraill.
Am ragor o wybodaeth, ewch i www.legacyleisure.org.uk neu www.plasmenai.wales